## Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol – Arwain Adferiad Glas

Rhaid i'r adferiad gwyrdd yng Nghymru fynd i'r afael â heriau cyffredinol newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, ac arferion cynhyrchu a defnyddio anghynaliadwy, gan ddarparu manteision cymdeithasol ac economaidd hefyd. Mae'r egwyddorion a'r blaenoriaethau hyn ar gyfer adferiad wedi'u cyflwyno i Weinidogion gan y Tasglu Adferiad Gwyrdd.

Mae'r Tasglu'n cydnabod bod cyfres benodol o gyfleoedd a heriau ar gyfer adferiad gwyrdd i'n harfordiroedd a'n moroedd - 'adferiad glas'.

Mae Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG), sy'n cynrychioli rhanddeiliaid morol ac arfordirol ledled Cymru, wedi gweithio i ddatblygu'r alwad ar y cyd hon am **becyn Adferiad Glas integredig** sy'n adeiladu ar ystod o gynigion cysylltiedig a gyflwynwyd i'r Tasglu Adferiad Gwyrdd yn 2020. Rydym yn amlinellu yma becyn o gamau gweithredu sydd eu hangen i ddatblygu arfordiroedd a moroedd mwy gwydn sy'n gallu cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau arfordirol yn well, fel rhan o'r gwaith o gyflwyno adferiad gwyrdd ehangach ledled Cymru.

### Yr achos dros weithredu

- **Mae ein harfordiroedd a'n moroedd yn cyfrannu'n sylweddol at lesiant**.
- Rydym yn genedl arfordirol ac mae ein **hamgylchedd morol yn fwy na dwbl maint Cymru.**
- Mae Adroddiad ONS diweddar yn nodi bod **asedau cyfalaf naturiol morol y DU yn werth £211 biliwn.** Rydym yn cael nifer o fanteision diriaethol o'n moroedd ar ffurf **bwyd iach, ynni adnewyddadwy, a deunyddiau adeiladu**, ynghyd â swyddi cysylltiedig. Mae ein gallu i weithio o bell yn ystod y pandemig a pharhau i ymgysylltu'n fyd-eang yn ddibynnol ar geblau **telathrebu tanfor** sy'n ein cysylltu â gweddill y byd. Mae **twristiaeth** yn sector economaidd allweddol yng Nghymru ac mae atyniad ein harfordir dramatig, morluniau a bywyd gwyllt yn chwarae rhan bwysig. Mae gennym nifer o adrannau **ymchwil forol o'r radd flaenaf** ym Mhrifysgolion Cymru, yn darparu cyflogaeth o ansawdd uchel ac yn gwneud ymchwil a datblygu a chasglu tystiolaeth sy'n hanfodol er mwyn rheoli ein hamgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy. Mae ein **porthladdoedd a'n harbwrs** yn darparu pyrth ar gyfer twf cynaliadwy o amgylch ein harfordiroedd.
- Mae ein moroedd hefyd yn cynnig llu o fanteision llai gweladwy ond llawn bwysiced. Gall cynefinoedd fel morfa heli a glaswellt y môr **storio a dal carbon, yn ogystal ag amddiffyn rhag erydiad arfordirol a llifogydd**, gan chwarae rhan hanfodol, felly, wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Ar ben hynny, mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n cefnogi **effeithiau buddiol ar iechyd meddwl a lles** treulio amser ger y môr ac mewn 'gofod glas'[1].

[1] Marine and coastal areas linked with better health and well-being - GOV.UK (www.gov.uk)

- Mae cymunedau arfordirol yng Nghymru yn wynebu'r **effeithiau economaidd uniongyrchol** ar y sector twristiaeth yn sgil Covid19, effaith Brexit ar bysgodfeydd, ochr yn ochr â thuedd gyffredinol o amddifadedd uwch o gymharu â threfi nad ydynt yn arfordirol[2] tra bod y twf cyflym mewn ail gartrefi yn bygwth eu dyfodol diwylliannol ac economaidd unigryw.
- Yn ogystal, mae llawer o gymunedau arfordirol hefyd yn wynebu'r **her tymor hwy o addasu i effeithiau cynnydd yn lefel y môr, erydu arfordirol a llifogydd** yn sgil newid hinsawdd[3].
- **Mae ecosystem forol wydn yn hanfodol i adferiad glas**. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol diweddar (2020) yn dangos darlun cymysg ar gyfer bywyd gwyllt o amgylch ein harfordiroedd a'n moroedd gydag effeithiau newid hinsawdd, llygredd a rhywogaethau anfrodorol i gyd yn rhoi pwysau. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r cyfleoedd i adeiladu gwytnwch yr ecosystem forol drwy adfer cynefinoedd, gwneud y mwyaf o botensial dal a storio carbon, a chwblhau'r cyfraniad at rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig cydlynol yn ecolegol sy’n cael eu rheoli’n dda.

**<u>Sut beth fyddai adferiad glas?</u>**

Arweiniodd proses y Tasglu Adferiad Gwyrdd yn 2020 at sawl cynnig a allai fod yn rhan o adferiad glas. Roedd y rhain yn cynnwys camau i fynd i'r afael ag ymddygiadau a dulliau rheoli ar dir mewn ffyrdd a all gael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd ein moroedd. Er enghraifft, gall gweithredoedd ar gyfer economi gylchol leihau sbwriel morol, gall camau gweithredu i hyrwyddo iechyd a lles cymunedau fanteisio mwy ar fannau glas (a chyfleoedd sylweddol fel Llwybr Arfordirol Cymru), tra gall camau sy'n gwella rheoli gwastraff a dŵr gefnogi gwelliannau mawr eu hangen i ansawdd dŵr arfordirol. Bydd adferiad glas yn seiliedig ar wytnwch yr ecosystem forol gyda'r cyfleoedd y mae'n eu cyflwyno ar gyfer ein heconomi a lles ein cymunedau. Felly, roedd amrywiaeth o gynigion penodol a oedd yn ymwneud â'r môr a oedd yn adlewyrchu cyfleoedd yn ymwneud â sectorau morol penodol, heriau i gymunedau sy'n byw ar yr arfordir, a chamau sydd eu hangen i wella gwytnwch ecolegol ein moroedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhwydwaith Ardal Forol Warchodedig.

Mae aelodau unigol o WMAAG, fel Cymdeithas Pysgotwyr Cymru wedi cyflwyno gweledigaeth glir o'u cyfraniad at adferiad glas gyda CPC yn nodi argymhellion ar gyfer rheoli pysgodfeydd cynaliadwy ac ymrwymiad i sicrhau diwydiant pysgota proffidiol a chynaliadwy sy'n helpu cymunedau arfordirol i ffynnu a'n hamgylchedd morol unigryw i ffynnu. Credwn y gall cysylltu ymrwymiadau unigol o'r fath yn rhaglen weithredu gydlynol ar y cyd gyda'r

[2] Coastal towns in England and Wales - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[3] Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2020

Llywodraeth sicrhau y gall ein hardal forol wneud ei chyfraniad priodol at gyflawni ein nodau llesiant cenedlaethol

Mae Ffigur 1 yn crynhoi'r canlyniadau a geisir gan bartneriaid o adferiad glas, gan gysylltu'r rhain â Chynllun Morol Cenedlaethol presennol Cymru, yn ogystal â'r themâu craidd o adroddiad y Tasglu Adferiad Gwyrdd.

Wrth lunio'r cynnig Adferiad Glas hwn, mae WMAAG wedi cydnabod bod amrywiaeth o raglenni a fframweithiau presennol eisoes yn cefnogi cyflawni'r canlyniadau hyn. Yn benodol, canolbwyntiodd y grŵp ar y rhwystrau i gyflawni cynlluniau a pholisïau presennol yn effeithiol, er mwyn nodi galluogwyr allweddol adferiad glas.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Gall ein fframweithiau deddfwriaethol unigryw (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)) gefnogi adferiad gwyrdd a glas yng Nghymru.

Mae llawer o fframweithiau a rhaglenni eisoes ar waith y gellid eu hehangu er mwyn cyflawni adferiad glas yn gynt:

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru, a gyhoeddwyd yn 2019, yn cynnig gweledigaeth a fframwaith polisi clir ar gyfer rheoli ein moroedd yn gynaliadwy. Mae'r Datganiad Ardal Morol yn rhoi rhagor o fanylion am y blaenoriaethau a'r camau sydd wedi'u cytuno ar y cyd sydd eu hangen i adeiladu gwydnwch ein moroedd a'r buddion ehangach y gall hyn eu darparu.

<table>
<tr><th colspan="2">GALLUOGWYR ADFERIAD GLAS<br>(Amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) i gyd)</th></tr>
<tr><td colspan="2">• Cyllid ac ariannu cynaliadwy sy'n cefnogi cyflawni amcanion adferiad glas<br><br>• Gallu mewn cymunedau arfordirol sy'n galluogi ymgysylltu a chyfrannu cydlynol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol</td></tr>
<tr><th>ATEBION SY'N SEILIEDIG AR NATUR<br>(Amcanion CMCC 1,6,7,8,9,10,11,13)</th><th>TRAWSNEWID SYSTEMAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL<br>(Amcanion CMCC 2,3,4,5,6,7,8,12,13)</th></tr>
<tr><td>• Cyflwr gwell rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn cefnogi ecosystem forol gydnerth<br><br>• Cyflwyno rhaglen ar draws Cymru o adfer morol ac arfordirol gweithredol sy'n darparu carbon glas ac yn gwella bioamrywiaeth<br><br>• Lle rydym yn buddsoddi mewn amddiffynfeydd arfordirol, mae atebion sy'n seiliedig ar natur wedi cael eu hystyried a'u gweithredu lle bo hynny'n briodol.</td><td>• Proses cynllunio morol sy'n sicrhau adferiad natur<br><br>• Defnyddio ynni adnewyddadwy morol yn gynaliadwy drwy sylfaen dystiolaeth well<br><br>• Sector pysgodfeydd a dyframaethu cynaliadwy a gefnogir gan gynnydd yn y marchnadoedd ar gyfer bwyta bwyd môr yng Nghymru sy'n darparu manteision o ran iechyd a lles<br><br>• Sector twristiaeth arfordirol cryf a chynaliadwy<br><br>• Llai o sbwriel môr</td></tr>
</table>

Ffigur 1: Y prif ganlyniadau a geisir o gynigion morol i'r broses Adferiad Gwyrdd, wedi'u halinio ag amcanion yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Mae amrywiaeth o grwpiau a phrosiectau sefydledig, sy'n cynnwys aelodau WMAAG, sy'n ymroddedig i gyflawni o dan y fframwaith polisi hwn, megis y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, y Grŵp Strategol Cynghori ar Ganiatadau ar gyfer ynni adnewyddadwy morol, Partneriaeth Moroedd Glân Cymru, prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgodfeydd Cymru, Is-grŵp Cadernid Morol, a'r Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru (mae'r grŵp olaf hwn wedi bod yn destun adolygiad ers cryn amser ac nid oes ganddo Gadeirydd ar hyn o bryd.) Mae defnyddio'r grwpiau hyn i roi newidiadau ar waith a'r defnydd effeithiol o arbenigedd y rhanddeiliaid yn hollbwysig.

Fodd bynnag, mae bylchau o hyd i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys yr alwad am Fil Pysgodfeydd newydd, cynlluniau gwella pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd; a chyfleoedd i ystyriaethau morol gael eu cynnwys yn well, er enghraifft, mewn prosesau cynllunio daearol a darpariaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Un ffactor hollbwysig yw nad yw cyflymder y ddarpariaeth ar hyn o bryd yn cwrdd â'r angen brys i weithredu, gyda rhwystredigaethau'n cael eu mynegi ar draws ystod o fuddiannau gan gynnwys ynni adnewyddadwy, pysgodfeydd a grwpiau cadwraeth.

Mae aelodau WMAAG yn glir bod angen mwy o fuddsoddiad (buddsoddiad amlflwydd yn ddelfrydol) gyda chynllun gweithredu clir a all sicrhau adferiad glas.

**<u>Beth sydd angen iddo ddigwydd i sicrhau adferiad glas?</u>**

Mae cyfres o drafodaethau gyda grŵp WMAAG (am dabl cryno gweler yr Atodiad) wedi nodi'r angen am becyn o gamau galluogi er mwyn cynyddu a chyflwyno prosiectau, cynlluniau a gweithredoedd presennol, yn ogystal â diffinio rhai newydd i ddarparu ecosystemau morol gwydn drwy atebion sy'n seiliedig ar natur a chyfleoedd economaidd-gymdeithasol.

Mae'r galluogwyr hyn yn allweddol i baratoi ac adeiladu gallu i gyflawni unrhyw gamau pellach:

- *Bydd datblygu **llythrennedd morol**[4] ar draws pob rhan o gymdeithas yn codi ymwybyddiaeth o arwyddocâd economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein harfordiroedd a'n moroedd*
- *Mae **buddsoddi hirdymor cynaliadwy** yn hanfodol i gynorthwyo gyda chyflawni amcanion allweddol sy'n cael eu cefnogi gan dargedau a cherrig milltir perthnasol*
- *Gall **meithrin gallu,** yn enwedig ar lefel leol, drwy gynlluniau fel y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol arfaethedig, alluogi ymgysylltu cymunedol ystyrlon i fynd i'r afael â chyfleoedd a heriau lleol drwy uchelgais a rennir ac achos cyffredin.*

[4] Diffinir fel bod â 'dealltwriaeth o'ch dylanwad ar y cefnfor, a'i ddylanwad arnoch chi'.

**1.Mwy o ymwybyddiaeth o gyfleoedd a phwysigrwydd ecosystem forol gydnerth yng Nghymru, a mwy o ffocws arnynt, yn wleidyddol ac yn lleol**
**[gwella llythrennedd morol ledled Cymru]**

- Gosod targedau, nodau a mesurau clir ar gyfer gwytnwch ein hecosystem forol wrth gefnogi Adferiad Glas. Gallai hyn gynnwys targedau mewn perthynas ag adfer cynefinoedd morol ac arfordirol sy'n cysylltu â galwadau rhyngwladol i warchod 30% o dir a môr o fewn ardaloedd sy'n cael eu rheoli'n dda ar gyfer natur erbyn 2030;

- Meithrin a gwella dealltwriaeth o bwysigrwydd ein moroedd a'u stiwardiaeth, yn amgylcheddol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol ar draws ein cymunedau, a'n gweinyddiaethau; er enghraifft, cynnwys amcanion morol ac arfordirol yn fwy amlwg wrth weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig yn narpariaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Cryfhau'r gwaith o weithredu a datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru er mwyn cefnogi datblygu dyfroedd Cymru yn gynaliadwy a sicrhau adferiad natur. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi ffocws gofodol cryfach wrth gynllunio, drwy fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth strategol a mabwysiadu dull aml-sector sy'n ystyried effeithiau cronnus ar yr amgylchedd.

- Gwireddu'r buddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n deillio o ddiwydiant pysgota gwirioneddol gynaliadwy yng Nghymru (Cyfeiriad; WFA-CPC - 'Sea our Future') drwy reoli pysgodfeydd mewn dull addasol yn seiliedig ar dystiolaeth. Rhaid i hyn hefyd gynnwys y potensial ar gyfer dyframaethu molysgiaid yng Nghymru sy'n cynnig atebion sylweddol seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystem yn gynaliadwy yn yr amgylchedd morol wrth gynhyrchu protein bwyd môr iach.

- Buddsoddi mewn cyfleoedd i adeiladu gwytnwch yr ecosystem forol drwy adfer cynefinoedd, gwneud y mwyaf o botensial dal a storio carbon, a chwblhau'r cyfraniad at rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ecolegol cydlynol a reolir yn dda. Defnyddio rheoleiddio lle bo'n briodol pan fo tystiolaeth o weithredu sy'n arwain at ddirywiad mewn bioamrywiaeth a dirywiad amgylcheddol.

- Cychwyn trafodaeth newydd gyda Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar wybodaeth am ddiffyg buddsoddi hanesyddol yng ngwytnwch ecosystemau morol a chyfleoedd am adferiad glas integredig, yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Gweithio ar y cyd i ddatblygu camau penodol gydag amserlenni gweithredu er mwyn cynyddu gwytnwch.

**2. Buddsoddi mewn adferiad glas i Gymru**

- Rhoi cyllid hirdymor sy'n addas i'r diben ar waith[5] i gynyddu cyflymder darparu camau i adeiladu gwytnwch ecosystemau morol ac arfordirol. Dylai hyn gynnwys camau gweithredu a gweithgareddau i fynd i'r afael ag amrywiaeth o themâu, gan gynnwys yr awgrymiadau canlynol ond heb eu cyfyngu iddynt:
  - Gwella cyflwr a chysylltedd rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru a'r moroedd ehangach, trwy eu rheoli'n well a mesurau diogelu priodol
  - Gwneud y mwyaf o amddiffyn ac adfer cynefinoedd morol ac arfordirol presennol er mwyn darparu buddion carbon glas, ac archwilio cyfleoedd i adfer cynefinoedd a gollwyd yn hanesyddol, lle bo hynny'n briodol.
  - Sicrhau digon o adnoddau o fewn CNC i gynnal gwaith monitro a chasglu tystiolaeth er mwyn gwella ein dealltwriaeth o statws presennol bioamrywiaeth forol a'r camau sydd eu hangen i'w gwella
  - Cynnal adolygiad o'r cyfalaf naturiol a manteision moroedd sy'n cael eu rheoli'n dda yng Nghymru, gan gynnwys dulliau safle cyfan ar gyfer rheoli moroedd yn ehangach.

- Mae mwy o ymgysylltu a pherchnogaeth mewn cymunedau/rhanbarthau arfordirol wrth gynllunio a rheoli'r ardaloedd morol ac arfordirol yn elfen hanfodol o Adferiad Glas.

- Model ariannu hyblyg sy'n ysgogi ymgysylltu â chymunedau arfordirol ac yn meithrin gallu i fynd i'r afael â materion a chyfleoedd lleol (e.e. trwy gefnogaeth i bartneriaethau arfordirol presennol /sefydlu partneriaethau newydd a grwpiau cymunedol lleol neu fel arall fel y bo'n briodol).

---

[5] Efallai na fydd y ffocws presennol ar gyllid tymor byr a chyfalaf yn addas ar gyfer mynd i'r afael â llawer o faterion a'r camau gweithredu sydd eu hangen (e.e. casglu tystiolaeth, codi ymwybyddiaeth)

- Sefydlu cyllid priodol i sicrhau bod bylchau tystiolaeth yn cael eu cau a chymell rhannu data a all alluogi dull mwy effeithiol yn enwedig wrth ystyried cydsynio i Ynni Adnewyddadwy ar y Môr.

**3. Sefydlu Rhwydweithiau i nodi a mynd i'r afael â chyfleoedd a heriau adferiad glas, gan ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau arfordirol wrth gynllunio ar gyfer eu dyfodol [meithrin gallu]**

- Datblygu a chyflwyno model hyblyg ar gyfer ymgysylltu ystyrlon â chymunedau arfordirol ar lefel leol (megis drwy bartneriaethau arfordirol ac ymgorffori ystyriaethau morol ac arfordirol yn gryfach yn narpariaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) fel y gellir nodi'r effeithiau ar gymunedau, atebion a chyfleoedd o'r gwaelod i fyny, gan gynnwys prosiectau lleol ac anghenion tystiolaeth i hwyluso datblygiad cynaliadwy.

- Meithrin gallu i ymgorffori ystyriaethau morol ac arfordirol ar draws gwahanol feysydd polisi i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer sicrhau adferiad glas a manteision lluosog pan fydd cymdeithas yn cymryd camau ataliol yn y tarddle, er enghraifft:
    - Gwreiddio gwyddorau ac ymchwil cefnforoedd yn y Cwricwlwm i Gymru er mwyn cefnogi a meithrin llythrennedd a stiwardiaeth forol.
    - Ymgorffori manteision pysgod a physgod cregyn cynaliadwy o ffynonellau lleol mewn strategaeth fwyd genedlaethol.
    - Gwell cydnabyddiaeth o rôl economaidd twristiaeth arfordirol, sy'n dibynnu yn ei hanfod ar ecosystem forol wydn.
    - Galluogi gwell darpariaeth o atebion seiliedig ar natur i gyfrannu at erydiad arfordirol a llifogydd neu fynd i'r afael â nhw.
    - Sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl i gefnogi buddion iechyd o'r amgylchedd morol, e.e. drwy bresgripsiynu cymdeithasol.
    - Mynd i'r afael â ffynonellau llygryddion drwy drin dŵr gwastraff trefol ac mewn dalgylchoedd i fyny'r afon.

- Codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r buddion economaidd i gymunedau sy'n gysylltiedig ag ecosystemau gwydn iach a gweithgarwch economaidd cynaliadwy ac arloesol.

**I gloi**

Mae aelodau WMAAG eisiau ymgysylltu â'r Llywodraeth newydd drwy bartneriaeth newydd i arwain adferiad glas a all sicrhau amgylchedd morol iachach, cyfrannu at ymateb i her y newid yn yr hinsawdd a sicrhau mwy o swyddi a gwell swyddi i'n cymunedau arfordirol.

Gallwn gyflawni hyn drwy ddwyn ynghyd ystod o sectorau economaidd, sefydliadau ac unigolion sydd wedi ymrwymo i'r weledigaeth adferiad glas, i weithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau buddsoddiad a chynllun gweithredu a all droi'r weledigaeth hon yn realiti dros y tymor hwn o’r Senedd.

Atodiad

| Llwyddiant/ Galluogwyr | Canlyniadau | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| Ariannu a chyllid cynaliadwy ar gyfer adferiad glas **[buddsoddiad**]<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth o gyfleoedd a phwysigrwydd ecosystem forol gydnerth yng Nghymru, a mwy o ffocws arnynt, yn wleidyddol ac yn lleol [**llythrennedd morol**]<br><br>Rhwydweithiau newydd a phresennol ar waith i nodi ac ymateb i gyfleoedd a heriau ar gyfer adferiad glas gyda chymunedau arfordirol yn ymgysylltu ac yn ymwneud â chynllunio ar gyfer eu dyfodol [**meithrin gallu**] | Cyllid addas i'r diben wedi'i ddarparu i sicrhau adferiad glas (h.y. llai o ffocws ar gyfalaf os yw'n briodol) (megis Cyllid CNC a ddyrennir yn Strategol; rhaglenni amlflwydd)<br><br>Materion morol ac arfordirol wedi'u cynnwys yn well yn y prosesau presennol, megis darpariaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan arwain at weithredu cadarnhaol<br><br>Gallu ar sail lle i ymgysylltu â chymunedau a busnesau i sicrhau adferiad glas, a mynd i'r afael â phryderon cymunedol yn well (e.e. rheoleiddio ansawdd dŵr)<br><br>Gwell ymgysylltu lleol ynghylch materion morol ac arfordirol ac felly mwy o weithredu ar lawr gwlad i ymateb i gyfleoedd a heriau | Cychwyn trafodaeth newydd gyda'r Llywodraeth yn seiliedig ar wybodaeth am ddiffyg buddsoddiad hanesyddol yng ngwytnwch ecosystemau morol a chyfleoedd ar gyfer adferiad glas integredig, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.<br><br>Mynegi'r camau sydd eu hangen i wella gwytnwch ecosystemau morol (yn enwedig gwella cyflwr y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig) a gwytnwch morol ehangach sy'n cynnwys yr agweddau economaidd-gymdeithasol a diwylliannol a'r math o adnoddau sydd eu hangen i gefnogi hyn.<br><br>Sefydlu cyllid priodol ar gyfer pot tystiolaeth cydsynio Ynni Adnewyddadwy Morol i sicrhau bod bylchau tystiolaeth yn cael eu cau ac ysgogi rhannu data<br><br>Mae pysgodfeydd a dyframaethu yn gofyn am bolisïau a deddfwriaeth sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd ac yn cefnogi Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a datblygu cynaliadwy<br><br>Cynnig yr angen am dargedau a nodau/ymrwymiadau clir a mesurau ar gyfer Adferiad Glas. Gallai hyn gynnwys targedau ar gyfer e.e. adfer; llythrennedd morol; dynodi hyrwyddwr (Comisiynydd ar gyfer harfordiroedd |

| | | |
|---|---|---|
| | Adnoddau ynni adnewyddadwy morol sydd wedi'u datblygu a'u gweithredu'n gynaliadwy sy'n cyflawni amcanion diogelwch ynni a lleihau carbon Cymru, gan ystyried buddiannau eraill yn llawn ar yr un pryd, a gwytnwch ecosystemau.<br><br>Dealltwriaeth o fudd net defnyddio ynni adnewyddadwy morol cynaliadwy a'r gwerth a briodolir i gyflenwad domestig o<br>ynni glân | a'n moroedd?); mwy o ffocws gan yr FGC ac adrodd o fewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus?<br><br>Datblygu a chyflwyno model hyblyg ar gyfer ymgysylltu â chymunedau arfordirol yn lleol (partneriaeth arfordirol neu ddull arall)<br><br>Tynnu sylw at y cyfleoedd o'n harfordiroedd a'n moroedd i ddarparu ar draws gwahanol feysydd polisi - e.e. twristiaeth arfordirol; iechyd (presgripsiynu cymdeithasol; llifogydd; cyflogaeth sectoraidd, datgarboneiddio cartrefi a diwydiant, etc.)<br><br>Nodi cyfleoedd i gynyddu llythrennedd morol ledled Cymru - e.e. ei wreiddio yn y cwricwlwm; eco-ysgolion; prosiectau ymgysylltu a gwyddor dinasyddion (megis Natur am Byth? Eraill?); twristiaeth a hamdden;<br><br>Gwaith trawsbolisi i atal problemau yn y tarddle e.e. effeithiau ar ansawdd dŵr yn sgil dŵr gwastraff trefol a llygredd amaethyddol, sbwriel arfordirol o dwristiaeth |

## Aelodau Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol

Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

British Sub Aqua Club (Cymru)

Cadeirydd Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru (swydd yn wag ar hyn o bryd)

Cadwch Gymru'n Daclus

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Cragen Llŷn a Môn

Cregyn Gleision Bangor

Croeso Cymru

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cymdeithas Agregau Morol Prydain

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Porthladdoedd Prydain

Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Diwydiant Dyframaethu Cymru

Dŵr Cymru

Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru

Fforwm Arfordir Sir Benfro

Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Partneriaeth Aber Afon Hafren

Partneriaeth Pwllheli

Renewable UK

Royal Yachting Association

RSPB

Sefydliad y Môr Glas

Un Llais Cymru

WWF

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Ynni Morol Cymru

Ystad y Goron